# Genedigaeth Isaac



TRUEWAY KIDS.com

# Cyflwyniad

Mae'r wers wythnos yma yn dilyn ymlaen o Dduw yn galw Abraham a Sara ac yn ffocysu ar gwblhad ei addewid.

Pwyntiau allweddol:-

- Amynedd – dylwn ni aros ar Dduw.
- Gallwn ymddiried yn Nuw er bod pethau ddim yn digwydd yn syth.
- Bydd Duw yn gwneud beth mae wedi addo.

Video playlist

inc video lesson

## Canllaw y Wers

Dechreuwch wrth adolygu galwad Duw i Abraham a Sara. Gofynnwch a yw eich plentyn yn cofio beth addawodd Duw wrth Abraham a Sara. (Byddai'n eu gwneud yn genedl enfawr.)

Gan fod y wers yma yn cynnwys Abraham a Sara yn paratoi pryd o fwyd i'w gŵr gwadd, pam ddim cael tê-parti bach fel lleoliad i'r wers wythnos yma?

Yn y wers wythnos yma mae hefyd rysáit i wneud rholiau bara. Mae hwn yn weithgaredd gwych i atgyfnerthu amynedd ac yn rhoi cynnig arall i fynd trwy'r stori a chael pryd o fwyd bach gyda'ch gilydd. Gallwch newid y rysáit am un arall mae'r teulu'n hoffi.

Enwch nifer o dasgau gwahanol i'ch plentyn. Gofynnwch iddynt ddweud os yw'r dasg yn anodd neu hawdd. Er enghraifft, chwarae gyda theganau, sefyll ar un goes, ac yn y blaen. Gallwch hefyd wneud y dasg yn rhyngweithiol trwy osod sialensiau.

Gofynnwch i'ch plentyn a oes unrhyw beth yn rhy galed i Dduw?

Dysgwch Genesis 18: 14 "Dw i, yr Arglwydd, yn gallu gwneud unrhyw beth."

Siaradwch am amser pan roedd hi'n anodd i chi aros am rywbeth. Nadolig, Pen-blwydd a.y.y.b. Rhannwch sut oedd rhaid i Abraham a Sara aros am amser hir cyn i Isaac cael ei eni.

Eglurwch sut mae aros ddim yn golygu na, ac mae'n rhaid i ni fod yn amyneddgar. Siaradwch am sut mae Duw yn ateb gweddi. Weithiau mae E'n dweud ie, weithiau mae E'n dweud na, ond ar adeg arall mae E'n dweud arhoswch.

Rhannwch fel mae Duw yn gwneud i ni aros am amser gwell.

Meddyliwch fel oedd Abraham wedi synnu gyda dyfodiad y tri dyn. Rhannwch sut mae Duw yn aml yn gweithio mewn amserau nid ydym yn disgwyl. Rhannwch amser pan weithiodd Duw yn eich bywyd mewn ffordd neu amser annisgwyl.

Ystyriwch rhai o'r addewidion eraill mae Duw wedi gwneud yn y Beibl. Dangoswch fel mae Duw bob amser yn cadw Ei addewidion.












© 2021 truewaykids.com



Cafodd Abraham a Sara ei mab fel addawodd y dyn.

Galwon nhw'r plentyn yn Isaac, sy'n golygu "chwerthin".

Cadwodd Duw ei addewid i Abraham a Sara.

Does dim yn amhosib i Dduw.

Carodd Abraham a Sara Isaac ac roeddent wedi dysgu iddo bopeth oedd Duw wedi gwneud ac addo.





# Isaac yn cael ei eni

Roedd Abraham a Sara wedi bod yn aros amser hir am fab.

Bob nos byddent yn edrych ar y sêr yn yr awyr ac yn cofio addewid Duw.

"Bydd eich disgynyddion cymaint â'r sêr."

Ond nawr ymddangosai fel petai un plentyn yn amhosibl.

Roedd Abraham a Sara yn rhy hen.



Un diwrnod, cafodd Abraham ei synnu gan dri dyn yn sefyll yn agos iddo.

Doedd Abraham ddim yn eu hadnabod, ond cododd yn gyflym i'w croesawu a gofynnodd a oeddynt eisiau pryd o fwyd.

Gofynnodd un o'r dynion, "Ble mae dy wraig Sara?"

"Byddaf yn dychwelyd atoch flwyddyn nesaf, bydd dy wraig Sara yn cael mab."





Clywodd Sara'r dyn o'i phabell.

Roedd wedi aros mor hir am fab.
Nawr roedd hi'n rhy hen.

Pan glywodd Sara'r dyn, chwarddodd yn uchel.

Gofynnodd y dyn, "pam bod Sara yn chwerthin? Oes unrhyw beth yn rhy anodd i'r Arglwydd?"

# Chwaraeon a gweithgareddau

## Pobi bara

Yn Genesis 18:6 brysiodd Abraham i'r babell at Sara a dywedodd, "dos i nol y blawd manaf a'i dylino a phobi peth fara."

Ar y tudalen canlynol mae resait bara hawdd. Gallwch ei newid am resait bara arall neu ffefryn y teulu.





## Rhestr siopa

Er mwyn paratoi'r pryd o fwyd i'r gwesteion, gwnaeth Abraham rhestr o'r pethau oedd rhaid ei gwneud.

Trefnwch bryd o fwyd gyda'ch gilydd a gwnewch restr siopa. Wedyn ewch i'ch siop leol a gadewch i'ch plentyn ddarganfod yr eitemau a'u croesi oddi ar y rhestr.

## Cerfluniau cerdd

Gêm parti clasurol. Pan mae'r gerddoriaeth yn stopio rhaid i bawb rewi ac aros nes mae'r gerddoriaeth yn ailddechrau unwaith eto.

Bydd hyn yn helpu dysgu pwysigrwydd aros am yr amser iawn.



© 2021 truewaykids.com

# Rholiau o fara cyflawn




Pobodd Abraham fara i'w tri gwestai. Mae pobi yn rhoi cyfle gwych i ni ddysgu am aros.

Pryd rydych yn aros i'r bara dyfu a phobi, siaradwch am sut oedd rhaid i Abraham a Sara aros am addewid Duw.

## Byddwch angen:




500g Blawd bara cyflawn




7g burum



3 llwy fwrdd Olew Llysiau




½ llwy de siwgr



300 ml dŵr twym

## Beth i wneud:

Rhagboethwch y ffwrn i 190°C/marc nwy 6.

Cymysgwch y cynhwyson i gyd nes cael toes llyfn ac wedyn dylinwch am 10 munud.

Rhowch y does mewn bowlen sydd wedi ei olewu a rhowch orchudd 'cling film' drosto. Gadewch y does nes mae wedi dwblu mewn maint, tua 45 munud.

Rholiwch y does yn siâp hir fel selsig a'i rannu yn 8 darn.

Rholiwch y does yn beli neu siapiau a'u gosod ar hambwrdd pobi.

Gadewch y bara nes mae wedi dyblu mewn maint, tua 30 munud.

Pobwch am 20-30 munud nes mae'n euraid.

© 2021 truewaykids.com

# Fy Wythnos












| Dydd Llun | Dydd Mawrth | Dydd Mercher | Dydd Iau | Dydd Gwener | Dydd Sadwrn | Dydd Sul |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |

# Disgwyl ar Dduw

© 2021 truewaykids.com




Torrwch allan y sgwariau. Gofynnwch i'ch plentyn enwi bwydydd.
Defnyddiwch gyda chardiau rysáit ar y tudalen canlynol.




























© 2021 truewaykids.com

# Cardiau rysáit

Cydweddwch y bwydydd i baratoi'r prydiau canlynol:





Pizza







Brechdan caws





Cawl llysiau





Salad ffrwythau



© 2021 truewaykids.com

# Pabell 3D - Geni Isaac




## Pethau byddwch angen

- Templed
- Pensiliau lliwio neu greonau
- Papur lliw
- Siswrn
- Glud

## Beth i'w wneud:



Argraffwch a lliwiwch y tudalen templed.



Torrwch allan triongl papur maint y babell. Gwnewch doriad yn y canol nes ei fod tua 2cm o'r top.




Gludwch ar y babell fel dangosir. Plygwch yn ôl i greu fflapiau ar y babell.

https://youtu.be/lATkc9jUtx4

© 2021 truewaykids.com


# Ydy unrhyw beth yn rhy anodd i Dduw?

Genesis 18:4





© 2021 truewaykids.com


Tynnwch lun o'ch hoff fwyd.




© 2021 truewaykids.com



© 2021 truewaykids.com



© 2021 truewaykids.com



© 2021 truewaykids.com



© 2021 truewaykids.com

# Addoli

Argymhellir caneuon addoli, heb eu cynhyrchu gan Trueway Kids.  Fideos 'You Tube' i'w defnyddio at ddefnydd personol yn unig.



## Father Abraham

https://youtu.be/5o_J30x6E6s

## God Always Keeps His Promises

https://youtu.be/WzrFkvn1LGg



# Amser gweddi

Dywedwch 'diolch' i Dduw am Ei addewidion.

Gofynnwch i Dduw eich helpu i aros am Ei amser perffaith.

# Wythnos nesaf

Abraham a Lot

Os nad ydych wedi gwneud hyn yn barod, ymunwch i dderbyn gwersi yn y dyfodol gydag e-bost.
truewaykids.com/subscribe/

© 2021 truewaykids.com